



Polisi Caffael

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Rheoli fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn (2) hon o Bolisi Caffael Cymwysterau Cymru ar 20 Mehefin 2018 gan y Bwrdd Rheoli.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn, a bydd y broses yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y polisi, a pha mor gyfredol ydyw. Disgwylir iddi gael ei hadolygu nesaf erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf. Yn y cyfamser croesewir adborth ar y polisi hwn. Dylech anfon eich sylwadau i procurement@qualificationswales.org.

Nodiadau'r Adolygiad 2018

1. Cynnwys cyfeiriad at y Strategaeth Gaffael.
2. Diweddarau diffiniad 'comisiynu'.
3. Dolen newydd ar gyfer Datganiad Polisi Caffael Cymru.
4. Eglurhad o drosolwg / ymyriad y tîm caffael
5. Ymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (CDP) a hyfforddiant Moeseg gan y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS).
6. Rhoi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn lle adran 14 ar Gaethwasiaeth Fodern.
7. Cyfeirio at 'bennu lotiau' ar gyfer gofynion.
8. Cyfeirio at Reoliadau Contractau Consesiwn 2016.
9. Cyfeirio at ddatgan buddiannau.
10. Wedi'i addasu yn un unol â'n harddull ni.

Egwyddorion cyffredinol y Polisi Caffael

Mae'r polisi hwn ar gyfer staff Cymwysterau Cymru, ei gyflenwyr (gan gynnwys arbenigwyr pwnc a sefydliadau ymchwil) a darparwyr nwyddau a gwasanaethau posibl i Cymwysterau Cymru. Mae'n egluro'r ffordd rydym yn rheoli ein gweithgarwch o ran caffael a chomisiynu.

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Caiff ein prif nodau a'r materion y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth gyflawni ein gwaith eu cwmpasu yn Neddf [Cymwysterau Cymru 2015](#).

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Mae ein gweithgarwch o ran caffael a chomisiynu yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu Reoliadau Contractau Consesiwn 2016.

Nod y polisi hwn yw egluro'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni ein prosesau caffael a chomisiynu. Mae ein Strategaeth Gaffael yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn cyflawni ein hamcanion sefydliadol gan ddilyn yr egwyddorion isod.

Diffinio Caffael

Y broses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian gydol oes o ran creu buddiannau i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi gan leihau niwed i'r amgylchedd i'r eithaf.

Procuring the Future 2006: Sustainable Procurement Task Force (Saesneg yn unig).

Diffinio Comisiynu

Y broses o nodi anghenion y boblogaeth a datblygu cyfeiriadau polisiau, modelau gwasanaeth a'r farchnad, er mwyn diwallu'r anghenion hynny yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol.

Sefydliad Gofal Cymdeithasol

Egwyddorion y Polisi Caffael

Wrth gyflawni gweithgarwch caffael a chomisiynu, byddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion polisi canlynol yn unol â [Datganiad Polisi Caffael Cymru](#) (WWPS) 2015 Llywodraeth Cymru, sy'n briodol ar gyfer sefydliad bach:

1. Strategol

Rydym yn cydnabod ac yn rheoli Caffael fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu ac yn deall gwariant, yn dylanwadu ar gynllunio cynnar a llunio gwasanaethau ac sy'n rhan o wneud penderfyniadau er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol. Mae'r tîm caffael wedi mesur ei arferion yn erbyn model aeddfedu caffael Llywodraeth Cymru ac wedi cynnwys meysydd i'w gwella yn y Strategaeth Gaffael. Mae'r Pennaeth Caffael yn aelod o'r Uwch Grŵp Arwain.

2. Caffael yn broffesiynol

Byddwn yn sicrhau bod gweithgarwch caffael, comisiynu a rheoli contractau yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfranogiad a dylanwad proffesiynol. Bydd gweithiwr caffael proffesiynol yn arwain yr holl weithgarwch caffael a chomisiynu ar gyfer contractau gwerth £25,000 ac uwch heb gynnwys TAW ac yn craffu ar yr holl weithgarwch caffael gan roi canllawiau a chymorth i staff ar ddyfarnu contractau â gwerth rhwng £5,000 a £24,000 heb

gynnwys TAW. Bydd pob un o'n gweithwyr caffael proffesiynol yn cwblhau o leiaf 30 awr o DPP bob blwyddyn.

3. Effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol (Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru))

Rydym yn ystyried gwerth am arian fel y cyfuniad gorau o gostau gydol oes, nid yn unig o ran cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da ar gyfer Cymwysterau Cymru, ond hefyd er budd y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol. Wrth fabwysiadu'r dull gweithredu hwn, rydym yn rhoi'r sylw dyledus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn pennu amcanion a fydd yn gwneud y gorau o'n cyfraniad i'r nodau llesiant a amlinellir yn y Ddeddf, gan fabwysiadu dull gweithredu gydol oes ac ystyried effeithiau mwy hirdymor ein gweithrediadau.

4. Buddiannau cymunedol

Rydym yn ystyried cyflwyno budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy ddefnyddio Polisi Buddiannau Cymunedol Llywodraeth Cymru yn gymesur ac yn effeithiol.

5. Cystadlu agored a hygyrch

Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu cymesur, yn seiliedig ar risg, o ran caffael er mwyn sicrhau bod pob cyfle am gontract yn agored i bawb, ac na chaiff cyflenwyr lleol llai eu hatal rhag ennill contractau yn unigol, fel consortia, neu drwy rolau o fewn y gadwyn gyflenwi.

Wrth wneud hyn, byddwn yn anelu at hysbysebu pob contract dros £25,000 ac eithrio TAW (lle nad oes fframwaith addas ar gael), ac yn cyhoeddi'r hysbysiadau dyfarnu cysylltiedig ar www.gwerthwchigymru.gov.wales. Byddwn hefyd yn gwneud y canlynol:

- ystyried 'pennu lotiau' ar gyfer gofynion,
- cymhwyso dull gweithredu Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ('SQUID') Llywodraeth Cymru at y broses o ddewis cyflenwyr (Mae Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Gronfa Ddata er mwyn cydymffurfio â'r Ddogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth Caffael yr UE - byddwn yn defnyddio'r fersiwn newydd unwaith y caiff ei chyflwyno), ac yn
- cyhoeddi blaenraglen gontract

6. Prosesau safonol mwy syml

Bydd ein prosesau caffael a chomisiynu yn agored, yn dryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau gweithredu safonol a'r defnydd o systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, costau, amserlenni a gofynion cyflenwyr yn briodol.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau e-gaffael sydd ar gael.

Ein nod yw talu pob anfoneb gywir yn brydlon, ac rydym wedi mabwysiadu polisi 'dim archeb prynu - dim tâl' ar gyfer ein gweithgarwch caffael.

7. Cydweithredu

Rydym yn cymryd rhan mewn cytundebau fframwaith megis y rheini a gaiff eu rheoli gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i gyflawni'r canlynol:

- lleihau dyblygu
- sicrhau'r ymateb gorau gan y farchnad
- ymgorffori egwyddorion y Datganiad Polisi er budd Cymru a
- rhannu adnoddau ac arbenigedd

Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru lle y bo'n bosibl.

8. Ymgysylltu â chyflenwyr ac arloesed

Byddwn yn cysylltu â chyflenwyr er mwyn cyflawni'r canlynol:

- sicrhau'r ymateb gorau gan y farchnad,
- llywio ac addysgu, a
- sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Rydym o blaid ymgysylltu y tu allan i'r farchnad ac yn awyddus i ddarparu adborth defnyddiol ar dendrau.

9. Mesur ac effaith

Yn unol ag arferion rheoli da, byddwn yn monitro perfformiad a chanlyniadau o ran caffael a chontractau i atgyfnerthu datblygiad parhaus, ac yn rhannu enghreifftiau o arfer da a gwael yn agored.

10. Caffael Moesegol

Rhaid i'n staff sy'n rhan o'r broses gaffael a chomisiynu, arddangos safonau moesegol uchel yn seiliedig ar onestrwydd, uniondeb a thryloywder. Caiff gweithgarwch caffael a chomisiynu ei gynnal mewn modd teg, tryloyw a diduedd o ran cyflenwyr, a chaiff hyn ei brofi drwy gadw cofnodion trylwyr. Mae'r tîm Caffael yn mabwysiadu'r [Cod Ymddygiad](#) a amlinellir gan y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi.

Bydd ein gweithwyr caffael proffesiynol yn cwblhau hyfforddiant Caffael a Chyflenwi Moesegol CIPS bob blwyddyn.

11. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus ar gael i bob defnyddiwr er mwyn sicrhau nad oes un grŵp yn wynebu anfantais wrth gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn ystod y broses gaffael a chomisiynu os ydynt yn berthnasol i'r pwnc dan sylw yn y contract neu'n ymwneud â chyflawni'r contract.

12. Y Gymraeg

Cyn cyhoeddi unrhyw gontract newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, byddwn yn ystyried perthnasedd cynnwys gofynion Iaith Gymraeg yn y contract, ac yn sicrhau bod y cwmni, y sefydliad neu'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ein rhan yn cydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnwys manylion perthnasol gofynion y Ddeddf mewn dogfennau tendr, contractau, cytundebau ac amodau a gofyn am ddatganiadau ar y ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu, lle y bo hynny'n briodol.

13. Deddf Llwgrwobrwyo

Rydym yn ddarostyngedig i Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Mae'r Ddeddf yn rhoi manylion am droseddau cyffredinol sy'n gysylltiedig â llwgrwobrwyo unigolyn arall neu gael eich llwgrwobrwyo a throedd benodol sy'n ymwneud â llwgrwobrwyo swyddogion cyhoeddus tramor. Mae hefyd yn cwmpasu troseddau llwgrwobrwyo ac ymdrechion i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy gynnig buddiannau heblaw'r hyn y gellir ei gynnig yn gyfreithlon fel rhan o'r broses dendro. Bydd contractau rydym yn eu dyfarnu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys cymalau sy'n mynd i'r afael â llwgrwobrwyo. Byddwn yn eithrio ymgeiswyr o broses gaffael os byddant wedi'u collfarnu o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo. Mae'n ofynnol i bob aelod o banel gwerthuso gwblhau datganiad buddiannau er mwyn sicrhau y caiff unrhyw wrthdaro posibl ei reoli.

14. Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae'r Cod Ymarfer wedi cael ei ddatblygu mewn ymateb i'r canlynol:

- darparu'r gadwyn gyflenwi yn y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- pryderon ynghylch problemau parhaus o ran arferion cyflogaeth annheg gan gynnwys hunangyflogaeth ffug, cosbrestru gweithwyr sy'n rhan o undebau, defnydd annheg o gynlluniau cyflogaeth ambarél a chontractau dim oriau
- ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cyflog Byw The Living Wage Foundation.

Rydym yn ymrwymo i weithio tuag at gymryd y camau gweithredu priodol er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer mewn ffordd gymesur a phriodol i'n maint a pherthnasedd y materion y mae ein Cod ar gyfer cadwyni cyflenwi yn eu cwmpasu.

I drafod unrhyw ymholiadau am y polisi hwn neu unrhyw gwestiynau am fod yn gyflenwr nwyddau a / neu wasanaethau i Cymwysterau Cymru, cysylltwch â procurement@qualificationswales.org

Perchennog y polisi	Elizabeth Frizi, Pennaeth Caffael
Dyddiad cymeradwyo	
Corff cymeradwyo	Y Bwrdd Rheoli
Dyddiad adolygu'r polisi	30/06/2019
Cynulleidfa'r polisi	Staff, cyflenwyr a chyflenwyr posibl Cymwysterau Cymru
Cyhoeddwyd yn Fewnol/Allanol	Cyhoeddwyd yn fewnol ac yn allanol